Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Drwy'r ebost

12 Medi 2014

Annwyl Christine,

**Ymgynghoriad ar y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)**

Diolch ichi am y gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn. Rwy'n cefnogi cylch gorchwyl yr ymchwiliad ac rwyf o'r farn bod yna synergedd sylweddol rhwng egwyddorion cyffredinol y Bil a'r gwaith yr wyf i'n ei hybu gyda phobl hŷn yng Nghymru ac ar eu rhan.

Ers imi ymgymryd â swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf wedi bod yn glir iawn fod mynd i'r afael â chamdriniaeth a throseddau yn erbyn pobl hŷn yn flaenoriaeth imi a bod hyn yn gorfod bod yn flaenoriaeth i Gymru hefyd. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn y pum mlynedd diwethaf, ond mae mwy o gynnydd i'w wneud. Rhaid i Gymru fod yn lle diogel i dyfu'n hŷn – nid dim ond i rai, ond i bawb.

## Y Memorandwm Esboniadol

Rwy'n croesawu'r cyfeiriad at bobl hŷn yn y Memorandwm Esboniadol, ond hoffwn dynnu sylw at nifer o faterion pwysig y mae'n eu codi. Mae sôn am y CSEW (tudalen 8) yn dangos bod lleisiau pobl hŷn yn eisiau yn yr adroddiadau am rai agweddau ar gam-drin. Mae'r holiadur y cyfeirir ato, sef Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2012-13, yn cyfyngu ei adrannau hunan-lenwi am drais domestig, fictimeiddio rhywiol a stelcian

i'r rhai sy'n 16-59 yn unig. Gan hynny, does dim gwybodaeth gan rywun sy'n 60 oed neu drosodd am y materion hyn yn cael ei chasglu a does dim rheswm yn cael ei roi i esbonio pam.

Menyw ifanc sy'n byw gyda dyn ymosodol, a phlant ifanc ganddi, yw'r stereoteip o ddioddefwr cam-drin domestig 'nodweddiadol'. Gwyddom fod y stereoteip hwn yn wir yn y mwyafrif o achosion ond nid dyma'r darlun llawn ac mae'n gallu arwain at fethu adnabod cam-drin domestig yn ddigon cynnar ymhlith y rhai yn y dosbarth oedran hanner cant a mwy.[i]

Yn 2008, gwelodd adolygiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth Cymru[ii] o gam-drin domestig yng Nghymru nad yw pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig yn cael y gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen ac nad ydyn nhw hyd yn oed yn cael eu gweld fel dioddefwyr mewn rhai achosion. Mae rhai menywod hŷn wedi bod yn byw gyda chamdriniaeth ddomestig ers degawdau[iii] a gwyddom fod menywod hŷn yn llai tebyg o roi gwybod am gael eu cam-drin, yn enwedig os ydyn nhw wedi bod yn byw gyda chamdriniaeth gydol eu hoes.[iv] Er hynny, pan fydd gwasanaethau'n cael eu dylunio'n unswydd i fenywod hŷn, mae nifer y cyfeiriadau'n cynyddu'n ddramatig.[v]

Mae fy ngwaith achosion i fy hun yn ategu'r canfyddiad hwn oherwydd ar nifer o achlysuron bydd digwyddiad sy'n amlwg yn gamdriniaeth ddomestig yn erbyn person hŷn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau amddiffyn oedolion yn hytrach na'r heddlu. Mae hyn yn dod â goblygiadau sylweddol ar gyfer hawliau dynol sylfaenol pobl hŷn, yn enwedig yr hawl i gael cymorth a chyfiawnder.

## Cydategu'r gweithdrefnau diogelu presennol

Rwy'n hyderu y bydd yr ymrwymiad i gefnogi a chydategu'r gweithdrefnau diogelu presennol ar gyfer plant (t.15) yn cael ei ailadrodd o ran pobl hŷn. Un o'r mentrau sy'n deillio o strategaeth Llywodraeth Cymru 'Yr hawl i fod yn ddiogel' oedd astudiaeth beilot yn canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr hŷn camdriniaeth. Roeddwn i'n gefnogwr allweddol i astudiaeth beilot Mynediad i Gyfiawnder, a gafodd ei gwerthuso yn 2012 ac argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar sut y gallai gweithdrefnau cam-drin domestig a gweithdrefnau amddiffyn oedolion gael eu hintegreiddio'n well.

Mae'n fuddiol bod Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed yn tynnu sylw at y gwahaniaethau a'r gorgyffwrdd rhwng camdriniaeth ddomestig ac

amddiffyn oedolion.[vi] Mae angen cryfhau'r canllawiau hyn ac adeiladu arnyn nhw. Ers cychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) rwyf wedi galw am ganllawiau statudol sy'n dangos yn glir y cysylltiadau rhwng yr elfennau yn y Ddeddf sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion a diogelu a'r ddeddfwriaeth ar drais domestig, a hynny yn y cyd-destun datganoledig ac ar lefel y Deyrnas Unedig.

**Y Datganiadau o'r Bwriadau Polisi**

Rwyf hefyd yn cefnogi'n llwyr y cynigion ynglŷn â chanllawiau y manylir arnyn nhw yn y dogfennau ar y bwriadau polisi ynghylch y canlynol:

- Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol
- Gofyn a Gweithredu
- Fforymau Aml-asiantaeth

Er hynny, rhaid i anghenion a phrofiadau pobl hŷn gael eu hadlewyrchu wrth ddylunio a chyflwyno pob un o'r ymyriadau hyn. Er fy mod yn croesawu cynnwys adran fach (t.73) sy'n cydnabod nad grŵp unffurf yw pobl hŷn, byddwn yn amau a ddylen nhw gael eu cynnwys yn yr adran hon fel 'grŵp lleiafrifol'. Mae hyn yn amlwg yn anghyson â realiti demograffig poblogaeth sy'n heneiddio.

Nododd y gwerthusiad o'r astudiaeth beilot 'Mynediad i Gyfiawnder' wahaniaethau hefyd rhwng camdriniaeth ddomestig pobl iau a chamdriniaeth ddomestig pobl hŷn. Er enghraifft, mae dynion hŷn mewn mwy o berygl o ddioddef cam-drin domestig na dynion iau ac mae ar bobl hŷn angen gwasanaethau gwahanol am y gall eu hanghenion nhw ac anghenion eu camdriniwr fod yn gymhleth. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyhoedd a'r ymarferwyr yn ymwybodol o sut mae camdriniaeth yn ymddangos ac yn effeithio ar bobl hŷn a dylai delweddau sy'n dangos dioddefwyr hŷn camdriniaeth gael eu dangos mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac yn holl gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru i helpu i chwalu'r stereoteipiau hyn.

Erbyn diwedd eleni byddaf wedi cyhoeddi gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud ar fy rhan gan Brifysgol Aberystwyth i amlygu'r 'bylchau' yn y gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Bydd yr adroddiad yn argymell y camau y dylid eu cymryd i lenwi'r bylchau hynny

Rwy'n hyderu y bydd yr wybodaeth hon yn bwydo cynnydd y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a byddwn yn croesawu rhagor o gyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol hyn a'u rhoi ar waith yn y dyfodol, gan gynnwys rhoi tystiolaeth ar lafar.

Yn gywir,

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

[i] Er enghraifft, gweler yr adroddiad Domestic Abuse & Equality: Older Women gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Wales/domestic_abuse_equality_-_older_women.pdf

ac Intimate partner violence against older women in Europe (Adroddiad y Deyrnas Unedig), Penhale a Porritt, 2010
http://www.uea.ac.uk/documents/2397319/2510614/IPVoW+UK+National+Report.pdf/c46ac112-7ec1-4259-9b26-e2cbd575bf4a

[ii] Cam-drin Domestig yng Nghymru, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 2008, 6.1.7, t.12

http://www.assemblywales.org/cc3_domestic_abuse_inquiry_report_-_e_-_final.pdf

[iii] Older Women's lifelong experience of domestic violence in Northern Ireland, Partneriaeth Newid Heneiddio, 2010
http://www.vawpreventionscotland.org.uk/sites/default/files/Older%20Women's%20Lifelong%20Experience%20of%20Domestic%20Violence%20in%20Northern%20Ireland.pdf

[iv] McKibben, M. (1988) "Self-neglect: An issue for the battered women's movement" Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Wisconsin, UDA

[v] Speltz, K. a Raymond, J. (2000) "Elder Abuse, Including Domestic Violence in Later Life" Wisconsin Lawyer; Cyf. 73 (9); Medi 2000.

http://www.wisbar.org/wislawmag/2000/09/speltz.html

[vi] Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin, Ionawr 2013, 6.6.5, t.30

http://ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=8297

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTO IN PEOP